

Rhif Llwybr:

Rhif cyhoeddi **Dyddiad Cyhoeddi:**

Dyddiad Adolygu

Diweddarwyd ddiwethaf

Awdurdod sy'n ei gyhoeddi: Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llwybr Prentisiaeth Cymru

mewn

Paentio ac Addurno

Mae'r Grŵp Llywio arbenigol a hwyluswyd gan CITB wedi cytuno ar gynnwys y Llwybr hwn Mae'r Llwybr Prentisiaethau Adeiladu hyn yn y sector Adeiladu wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru ac maent yn gymwys i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Gellir cael mwy o wybodaeth gan:

FEAD DfES • Ty Afon
Bedwas Rd • Bedwas
Cf838WT:

DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Cynnwys

[Cynnwys y Rhaglen Dysgu](#)

[Gofynion Mynediad](#)

[Rhaglen Dysgu - Llwybr Prentisiaeth](#)

- [Lefel 3- Paentio ac Addurno](#)

[Gofynion Ychwanegol Eraill](#)

[Rolau](#)

[Datblygiad](#)

[Cydraddoldeb ac Amrywiaeth](#)

[Cyfrifoldebau a Hawliau Cyflogaeth](#)

[Cyfrifoldebau](#)

CYNNWYS Y RHAGLEN DYSGU

Bydd darpariaeth y rhaglen dysgu'n cynnwys pedair elfen orfodol:

- Cymwysterau
- Sgiliau Hanfodol.
- Hyfforddiant ar / oddi ar swydd
- Gofynion ychwanegol Cyflogwr? (sgiliau digidol)

Cyfanswm yr isafswm o werth credyd sydd ei angen ar gyfer Llwybr Lefel 3 (Paentio ac Addurno) yw 78 credyd.

GOFYNION MYNEDIAD

rhestr a) Mae'r brentisiaeth hon yn addas i ddysgwyr sy'n:

- 16 oed ac yn hŷn sy'n gweithio yn y grefft ar hyn o bryd ac sydd un ai wedi cyflawni un neu fwy o'r canlynol:
- Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.
- Dilyniant mewn Adeiladu Lefel 2 y mae'r brentisiaeth i'w chyflawni ynddi.
- Tystysgrif neu Ddiploma Lefel 2 neu 3 yn y grefft y mae'r brentisiaeth i'w dilyn ynddi a gyflawnwyd o fewn y 3 blynedd diwethaf.
- 3 blynedd neu fwy o gyflogaeth ddilys yn y grefft y mae'r brentisiaeth i'w chyflawni ynddi.

Rhestr b, ac un neu fwy o'r canlynol

- Diploma Cenedlaethol Bagloriaeth Cymru
- Sgiliau Hanfodol Cymru neu Sgiliau Allweddol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif ar Lefel 1.
- TGAU gradd A*-D yn unrhyw ddau o'r canlynol: - pwnc cyfathrebu, mathemateg, ac un ai gwyddoniaeth neu bwnc technegol
- Gradd A*- D yn TGAU Amgylchedd Adeiledig CBAC.
- Lefel 2 Teilyngdod Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig.
- CBAB A/AS Amgylchedd Adeiledig, GCE.
- Teilyngdod, Pearson BTEC Lefel 1/Lefel 2 Dyfarniad Technegol mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

RHAGLEN (RHAGLENNI) DYSGU LLWYBR -

Craidd Prentisiaeth

Lefel 2 - Llwybr Adeiladu					
Corff Dyfarnu	Rhif cymhwyster:	Gwerth credyd	Cyfanswm amser y cymhwyster	Gwybodaeth	Cymhwyster Asesiad Iaith (ieithoedd)
C&G	C00/4414/4	41	414	Gwybodaeth	Saesneg neu Gymraeg

Lle mae dysgwyr wedi cyflawni un o'r gofynion mynediad yn rhestr a, ni fydd angen iddynt ymgymryd â'r Cymhwyster Craidd Adeiladu.

Bydd angen i bob dysgwr fod wedi cyflawni o leiaf un o'r gofynion o restr b ar gyfer mynediad.

Lefel 3: Paentio ac Addurno

Cymwysterau

Lefel 3 - Llwybr Adeiladu					
Corff Dyfarnu	Rhif cymhwyster:	Gwerth credyd	Cyfanswm amser y cymhwyster	Cymhwysedd / Gwybodaeth / Cyfuniad	Cymhwyster Asesiad Iaith (ieithoedd)
C&G	C00/4327/6	78	775	Cyfunol	Saesneg neu Gymraeg

Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW)

Ieithoedd asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yw Cymraeg-Saesneg.

Lefel 3: Paentio ac Addurno	Lefel	Isafswm Gwerth Credyd
Cyfathrebu	2	6
Cymhwyso Rhif	2	6

Gweler nodyn a ynghylch trefniadau pontio ar gyfer sgiliau hanfodol.

Gofynion ychwanegol Cyflogwr

Lefel 3: Paentio ac Addurno	Lefel	Isafswm Gwerth Credyd
Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu	2	3

Hyfforddiant mewn swydd / i ffwrdd o'r gwaith

Llwybr	Isafswm Oriau Hyfforddiant Mewn Swydd	Isafswm oriau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith
Lefel 3: Paentio ac Addurno	2786	477

Hyfforddiant mewn swydd / i ffwrdd o'r gwaith gyda Llwybr Adeiladu

Llwybr	Isafswm Oriau Hyfforddiant Mewn Swydd	Isafswm oriau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith
Lefel 3: Paentio ac Addurno	2786	731

Rhagwelir y bydd hyd y Brentisiaeth Paentio ac Addurno yn y Diwydiant Adeiladu rhwng 2 flynedd (Ôl Cymhwyster Sylfaen) a 3 blynedd (Yn cynnwys y cymhwyster Craidd).

Canllaw yn unig yw'r ffigyrau uchod a gallant fod yn wahanol ar gyfer gweithwyr profiadol/hŷn yn dibynnu ar faint/natur y profiad perthnasol, ac wedi'u lleihau'n sylweddol ar gyfer y rheini sy'n symud ymlaen o gymwysterau cysylltiedig fel y Cymhwyster Dilyniant..

Nodyn a - trefniadau pontio ar gyfer Sgiliau Hanfodol

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr a fydd yn dechrau eu Cymhwyster Sylfaen, Sylfaen Craidd neu Ddilyniant yn 2022 weithio tuag at Sgiliau Hanfodol lefel 2 - Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu yn ystod eu prentisiaeth.

Ar ôl cwblhau eu prentisiaeth bydd y dysgwr yn anelu at fod wedi cyflawni sgiliau hanfodol lefel 2 yn y ddau bwnc ond pennir ei fod wedi cwblhau ei brentisiaeth os yw wedi llwyddo i basio un o'r sgiliau hanfodol ar lefel 2 a'r llall ar lefel 1. Bydd hyn, fel yr uchod, yn caniatáu cyfnod pontio digonol a theg i'r dysgwyr hyn.

O fis Awst 2023 bydd yn ofynnol i unrhyw ddysgwr newydd sy'n cychwyn ei Gymhwyster Sylfaen, Sylfaen Craidd neu Ddilyniant lwyddo i basio'r ddau Sgil Hanfodol ar lefel 2 fel rhan o'u prentisiaeth.

GOFYNION YCHWANEGOL ERAILL

Manylion Gofynion Ychwanegol (Isafswm Credyd ac Oriau)

Gofynion ychwanegol Cyflogwr

Lefel 3: Paentio ac Addurno	Lefel	Isafswm Gwerth Credyd
Sgiliau Digidol ar gyfer Adeiladu	2	3

- Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei ddatblygu a bydd yn ofynnol pan gaiff ei gymeradwyo gan y Rheoleiddiwr yng Nghymru.

ROLAU

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer y Brentisiaeth Lefel 3 mewn Paentio ac Addurno. Bydd cyflawni holl gydrannau'r Fframwaith hwn yn llwyddiannus yn arwain at ddyfarnu cymhwyster Lefel 3 a chydabyddiaeth fel Peintwr ac Addurnwr cymwys yn y sector. Bydd Dyfarniad y Cymhwyster hwn yn galluogi'r dysgwr i wneud cais am Gerdyn CSCS Aur.

Mae gan y fframwaith hwn un llwybr:

- Paentio ac Addurno

Gweithio ar safle adeiladu neu mewn eiddo domestig a masnachol i fanylebau penodol yn paratoi arwynebau cefndir ar gyfer paentio ac addurno, rhoi paent ar arwynebau cymhleth gyda brws a rholer. Gosod gorchuddion wal i arwynebau cymhleth.

Cynlluniwyd y Brentisiaeth hon i roi cyfle i unigolion ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyflawni gwaith Paentio ac Addurno mewn adeiladau masnachol, diwydiannol a phreswyl.

Ar ôl cwblhau gofynion y Fframwaith hwn, dylai'r Prentis feddu ar y sgiliau craidd a'r wybodaeth graidd sydd eu hangen i gyflawni'r canlynol mewn modd diogel a chymwys:

- Gosod paent, staen, farnais a gorffeniadau eraill.
- Defnyddio brwsys, rholeri neu offer chwistrellu.
- Rhoi paent preimio a chôt cyntaf, neu farneisiau a gwydredd.
- Gosod papur wal.
- Cyfrifo'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer prosiect.
- Tynnu hen baent neu hen bapur wal drwy sandio neu grafu, neu drwy ddefnyddio gynnau gwres, peiriannau tynnu paent hylifol neu gydag offer stêm.
- Cymysgu paent i gael lliw y cytunwyd arno.
- Gosod gorchuddion i amddiffyn ardaloedd rhag paent.
- Paratoi arwynebedd ar gyfer addurno drwy lenwi tyllau a chau craciau.
- Tacluso a chadw eich offer.
- Gweithio ym musnes neu gartref cleient.

Yn ogystal, dylai Prentis hefyd allu:

- Rhoi barn a chefnogaeth broffesiynol
- Herio ymddygiadau / gweithgareddau peryglus
- Dangos arloesedd drwy ddynodi meysydd ar gyfer gwella ac awgrymu a/neu ddatblygu datrysiadau arloesol.
- Dynodi risgiau i'w hun ac eraill a'u rheoli
- Cadw'r ardal waith yn lân a thaclus
- Rheoli amser yn effeithiol
- Meddwl yn rhesymegol ac yn unol â gofynion y sefyllfa gan ddefnyddio rhesymu clir a dilys wrth wneud penderfyniadau i ymgymryd â'r cyfarwyddiadau gwaith
- Gweithio'n effeithiol ar ei ben ei hun ac mewn fîm
- Gweithio'n unol â gofynion ansawdd
- Gweithio'n gynhyrchiol
- Gweithio'n ddiogel a sicrhau diogelwch eraill
- Gweithio o fewn lefel ei gymhwysedd a gwybod pa bryd i gael cyngor gan eraill.

- Deall Gofynion technolegol a newidiadau
- Deall Rheoliadau a Gofynion Statudol ac Anstatudol
- Deall Arferion gwaith yn unol â gofynion lechyd a Diogelwch
- Deall Gweithdrefnau arolygu, profi a chomisiynu
- Cymhwysio deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac amgylcheddol yn y sector Adeiladu.
- Creu a meithrin perthnasoedd yn y sector Adeiladu

Drwy gydol y broses Brentisiaeth dylai'r Prentis, o leiaf, ddatblygu ac arddangos yr ymddygiadau sy'n dangos ei fod yn gyson:

1. Pendant
2. Hyderus
3. Wedi gwisgo'n addas
4. Empathi
5. Teg
6. Gonest
7. Rhagweithiol
8. Cynhyrchiol
9. Prydlon
10. Dibynadwy
11. Parchus (o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant)

DATBLYGIAD

Nod y Fframwaith hwn yw sicrhau bod y dysgwyr llwyddiannus yn ennill:

- Y Sgiliau a'r Wybodaeth sydd eu hangen ar y diwydiant i gyflawni cymhwysedd
- Sgiliau cysylltiedig â swydd a ddefnyddir yn yr amgylchedd gwaith
- Gwybodaeth a sgiliau sy'n cyd-fynd ag arferion gwaith, rheoliadau statudol ac anstatudol perthnasol
- Sgiliau Craidd a throsglwyddadwy
- Y sail i ddatblygiad gyrfa

Pan fydd prentisiaid wedi cwblhau'r Fframwaith hwn, mae ganddynt nifer o opsiynau i ddatblygu, gan gynnwys:

- Galwedigaethol: datblygu eich hun yn y rôl a cheisio dyrchafiad
- Academaidd: defnyddio'r cymwysterau a enillwyd fel sail ar gyfer astudiaeth bellach a mynediad i Addysg Bellach neu Uwch fel y bo'n briodol
- Cyfuniad o opsiynau Galwedigaethol ac Academaidd: ymgymryd ag astudiaeth ran-amser wrth barhau i weithio. Gall hyn fod yn rhan o Brentisiaeth Lefel Uwch (HLA) strwythuredig os yw hyn yn berthnasol/ar gael.

Yn fwy penodol, ar ôl cwblhau'r Brentisiaeth hon mewn Paentio ac Addurno yn llwyddiannus bydd prentis yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth, a bydd ganddo'r cymwysterau i:

- Wneud cais am gerdyn Aur CSCS trwy CSCS yn www.cscs.uk.com/
- Datblygu ar Brentisiaeth Lefel Uwch Berthnasol
- Datblygu yn ei yrfa gyda hyfforddiant pellach ar gyfer swydd megis, Goruchwyliwr/Rheolwr Safle / Gweithdy ayb

Gellir gweld arweiniad pellach o ran gyrfa ar:

- [Disgrifiad Swydd, Cyflog a Chymwysterau Peintiwyr ac Addurnwyr | Am Adeiladu \(goconstruct.org\)](https://goconstruct.org)
- [Peintiwyr ac Addurnwyr \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

Rhagwelir y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn symud ymlaen yn y diwydiant Adeiladu mewn swyddi cymwys fel swyddi cyflogedig neu hunangyflogedig, goruchwylwyr, rheolwyr.

Disgwylir dysgu parhaus gan yr ymgeiswyr cymwys er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o'r rheoliadau sy'n effeithio ar y diwydiant a newidiadau/datblygiadau technolegol.

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae'n bwysig bod Llwybrau prentisiaeth yn gynhwysol ac yn gallu dangos dull gweithredol o nodi a dileu rhwystrau i fynediad a dilyniant. Dylai llwybrau hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r bobl hynny nad ydynt yn gwneud hynny fel y nodir yn Ndedf Cydraddoldeb 2010.

Y nodweddion gwarchoddedig a ddynodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae priodas a phartneriaeth sifil hefyd wedi'u cynnwys, er dim ond o ran y gofyniad i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

RHAID i ddarparwyr hyfforddiant a chyflogwyr hefyd gydymffurfio â'r ddyletswydd arall o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn ymgeiswyr o ran mynediad i'r diwydiant ar sail y naw nodwedd warchoddedig hynny.

Nid yw'r Diwydiant Adeiladu, yn hanesyddol, wedi bod yn ddewis gyrfa draddodiadol i fenywod. Fodd bynnag, mae menywod yn cymhwyso ac yn gweithio'n llwyddiannus yn y diwydiant ac fe anogir hyn.

Mae'r cyrff sectoraidd yn gweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i nodi a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Cefnogir y gwaith hwn gan lywodraeth leol/cenedlaethol, cyrff/asiantaethau anllywodraethol ac Undebau perthnasol.

Mae'n ofynnol bod recriwtio prentisiaid yn agored ac yn deg i bawb sy'n bodloni'r meini prawf dethol, waeth beth fo'u rhyw, tarddiad ethnig, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd.

Rhaid i bob partner sy'n ymwneud â darparu'r brentisiaeth a chyflogwyr fod yn ymrwymedig i bolisi cyfle cyfartal a rhaid iddynt fod â pholisi a gweithdrefn cyfle cyfartal ffurfiol yn eu lle.

Rhaid i gyflogwyr/darparwyr allu dangos nad oes unrhyw arferion gwahaniaethol amlwg neu gudd wrth ddethol a chyflogi. Rhaid i bob gweithgaredd hyrwyddo, dethol a hyfforddi gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol megis Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd darparwyr yn monitro arferion a gweithdrefnau cyfle cyfartal yn eu sefydliad eu hunain ac yn cymryd camau cadarnhaol pan fo angen Argymhellir hefyd bod cyflogwyr/darparwyr yn cynnal cyfweiliad ymadael os yw'r prentis yn gadael y rhaglen cyn ei chwblhau.

CYFRIFOLDEBAU A HAWLIAU CYFLOGAETH (ERR)

Nid yw Cyfrifoldebau a Hawliau Cyflogaeth (ERR) bellach yn orfodol. Ond argymhellir bod pob prentis (yn enwedig y grŵp blwyddyn 16 -18) yn cael rhaglen sefydlu cwmni.

CYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldeb y Darparwr Hyfforddiant a'r Cyflogwr yw sicrhau bod gofynion y Llwybr hwn yn cael eu cyflawni'n unol ag Arweiniad Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.

Gellir cael mwy o wybodaeth gan:

Llywodraeth Cymru

DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales